# Penderfyniad (Rhif 2)

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## (Aelodau a Swyddogion y Cynulliad)

# Cyflogau a Lwfansau

# 2009

**Medi 2009**

CYNNWYS Page


1. Rhagarweiniad, egwyddorion, diffiniadau a darpariaethau cyffredinol 5

1.1. Rhagarweiniad 5

1.2. Egwyddorion 5

1.3. Diffiniadau 5

1.4. Lwfansau ar gyfer rhan o flwyddyn 6

1.5. Codiadau blynyddol 6

1.6 Talebau a derbynebau 6

1.7. Cyflwyno ceisiadau'n brydlon 7

1.8. Pan fydd Aelod yn marw neu'n methu cymryd llw oherwydd salwch 7

2. Cyflogau'r Aelodau 8

2.1. Swm sy'n daladwy 8

2.2. Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod Cynulliad 9

2.3. Talu cyflogau 9

3. Lwfans Costau Ychwanegol - ar gyfer costau aros oddi cartref dros nos 10

3.1. Diben a swm 10

3.2. Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Is - Aelodau’r Ardal Fewnol 10

3.3. Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Uwch - Aelodau’r Ardal Allanol 10

4. Teithiau arferol yr Aelodau (yng Nghymru) 12

4.1. Rhagarweiniad 12

4.2. Egwyddorion cyffredinol 12

4.3. Teithiau arferol 12

4.4. Teithio ar y ffordd 12

4.5. Cyfraddau fesul milltir 13

4.6. Costau teithio hebryngwyr 13

4.7. Teithio mewn tacsi 13

4.8. Llogi car 13

4.9. Teithio ar drên 13

4.10. Teithio mewn awyren 13

4.11. Teithio ar fusnes y pwyllgorau 14

**5. Teithiau estynedig 15**

5.1. Rhagarweiniad 15

5.2. Symiau ac amodau 15

**6. Costau teithio partneriaid a phlant 16**

6.1. Cyfyngu ar nifer y siwrneiau 16

6.2. Diffiniad o blentyn 16

6.3. Teithio mewn car 16

6.4. Taliadau uniongyrchol i briod neu blentyn 17

**7. Costau teithio staff yr Aelodau 18**

7.1. Cyfyngu ar nifer y siwrneiau 18

7.2. Teithio mewn car 18

7.3. Taliadau uniongyrchol i staff 18

**8. Teithio i Sefydliadau'r Gymuned Ewropeaidd etc. 19**

8.1. Yr hyn y gellir ei hawlio 19

8.2. Gwneud cais 19

8.3. Teithio i seneddau, cynghorau neu gynulliadau rhanbarthol 19

**9. Lwfans costau swyddfa 21**

9.1. Diben a swm 21

9.2. Costau swyddfa 21

9.3. Diogelwch swyddfeydd 22

9.4. Iechyd a Diogelwch / Mynediad i bobl anabl 22

9.5. Trosglwyddo arian 22

10. Lwfans Cyflogau Staff 23
10.1. Diben a swm 23
10.2. Codiad cyflog 24
10.3. Costau eraill yn ymwneud â staff 24
10.4. Cytundebau cyflogaeth 24
10.5. Talu cyflogau 25
10.6. Trosglwyddo arian 25
10.7. Taliadau uniongyrchol i staff 25
11. Pensiynau a darpariaethau cysylltiedig ar gyfer staff yr Aelodau 26
11.1. Pensiwn 26
11.2. Yswiriant bywyd 26
11.3. Yswiriant salwch difrifol 26
12. Lwfans Staffio Dros Dro 27
12.1. Diben 27
12.2. Hawlio'r Lwfans Staff Dros Dro 27
12.3. Cyfyngiadau 27
13. Taliadau diswyddo i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a delir o'r Lwfans Cyflogau Staff 29
13.1. Pan fydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod Cynulliad 29
14. Lwfans dirwyn i ben 30
14.1. Diben a swm 30
14.2. Treuliau taladwy 30
15. Grant adsefydlu 31
15.1. Grant adsefydlu 31
15.2. Deiliaid swyddi 32
16. Grant ymddeol oherwydd salwch 33
16.1. Grant ymddeol oherwydd salwch 33

**17. Lwfans Anabledd** 34

17.1. Diben a swm 34

**18. Galw'r Cynulliad neu bwyllgor yn ôl yn ystod y Toriad** 35

18.1. Diben a swm 35

## ADRAN 1: RHAGARWEINIAD, EGWYDDORION, DIFFINIADAU A DARPARIAETHAU

### *1.1. Rhagarweiniad*

Penderfyniad gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw hwn, o dan adrannau 20, 21 a 53 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf") a Rheol Sefydlog 1.7 a'r enw a roddir iddo yw Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Rhif 2) (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau a Lwfansau) 2009. Daw rhan 2 o'r Tabl ym mharagraff 2.1.3. o'r Penderfyniad hwn i rym ar 21 Medi 2009. Daw gweddill y Penderfyniad i rym ar 2 Tachwedd 2009.

1.1.1. Mae'r penderfyniad hwn yn disodli Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau) 2009 2009.

### 1.2 Egwyddorion

1.2.1 Yr egwyddor ganolog y mae'r Penderfyniad yn seiliedig arni yw mai dim ond lwfansau a/neu dreuliau rhesymol sy'n codi'n anorfod mewn perthynas â'u gwaith y gall Aelodau'r Cynulliad eu hawlio.

1.2.2 Pan fydd Aelodau'n hawlio lwfansau a/neu dreuliau mewn perthynas â'u gwaith fel Aelodau'r Cynulliad, mae'n rhaid iddynt ddangos y dogfennau priodol a rhoi unrhyw eglurhad angenrheidiol i brofi eu bod wedi gwario'r swm y maent yn ei hawlio a'u bod wedi cymryd rhan yn y gweithgaredd dan sylw.

1.2.3 Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu a oes gan Aelod hawl i unrhyw un o'r lwfansau a nodir yn y Penderfyniad hwn os bydd unrhyw amheuaeth ynglŷn â hynny.

### *1.3 Diffiniadau*

1.3.1 Oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu'n wahanol, dyma ystyr y geiriau a'r ymadroddion a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Caerdydd | Unrhyw fan o fewn cylch pum milltir o gwmpas adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. |
| Prif gartref | Y cartref a gofrestrwyd gan yr Aelod gyda Thîm Cymorth Busnes yr Aelodau, sef y cartref lle y mae'r Aelod yn arfer treulio'r rhan fwyaf o'i amser ac yn talu'r Dreth Gyngor yn llawn arno. |
| Cyflog | Y cyfanswm crynswth sy'n daladwy i Aelod cyn didynnu unrhyw symiau. ee treth incwm a chyfraniadau |

| | |
|---|---|
| | Yswiriant Gwladol |
| Blwyddyn | Y 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth |
| Staff | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad – oni nodir yn wahanol |

1.3.2 Bydd gan dermau eraill a ddefnyddir yr un ystyr ag a roddir iddynt yn y Ddeddf, neu yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

1.3.3. Cyfeirio at Glerc y Cynulliad, fel y'i diffinnir yn adran 26 o'r Ddeddf, a wneir wrth gyfeirio at y Prif Weithredwr a'r Clerc.

### *1.4 Lwfansau ar gyfer rhan o flwyddyn*

1.4.1. Mae'r lwfansau isod yn cael eu mynegi fel terfyn ariannol ar gyfer blwyddyn gyfan felly byddant yn gostwng pro rata os bydd Aelodau'n ymuno neu'n gadael y Cynulliad ar ganol blwyddyn. Yn gyffredinol, ni fydd gostyngiad yn y swm y caiff ei hawlio o fis i fis, ond mewn rhai achosion bydd yn rhaid ad-dalu lwfans os bydd Aelod yn gadael ar ganol blwyddyn ariannol, er enghraifft os yw Aelod wedi hawlio lwfans blwyddyn gyfan erbyn dechrau mis Rhagfyr ac yn gadael y Cynulliad ganol mis Rhagfyr.

1.4.2 Y lwfansau penodol yw'r Lwfansau Costau Ychwanegol, y Lwfans Costau Swyddfa a'r Lwfans Cyflogau Staff.

### *1.5 Codiadau Blynyddol*

1.5.1 Bydd y Lwfans Costau Ychwanegol, fel y'i diffinnir yn Adran 3 o'r Penderfyniad hwn, a'r Lwfans Costau Swyddfa, fel y'i diffinnir yn Adran 9 o'r Penderfyniad hwn, yn codi ar 1 Ebrill 2010, ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn wedi hynny, yn unol â'r cynnydd dros y flwyddyn flaenorol ym Mynegai Prisiau Manwerthu'r DU ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

### *1.6 Talebau a Derbynebau*

1.6.1 Bydd Aelodau'r Cynulliad sydd am hawlio lwfans yn cyflwyno cais am y lwfans fel y nodir gan y Prif Weithredwr a'r Clerc a gall y Prif Weithredwr a'r Clerc nodi amseroedd gwahanol i hawlio lwfansau gwahanol a gwahanol ddulliau o wneud hynny.

1.6.2 Heb ragfarnu ar gynnwys cyffredinol paragraff 1.6.1 gall y Prif Weithredwr a'r Clerc nodi bod yn rhaid amgáu talebau a dogfennau eraill i ategu'r hawliad, fel y gwêl orau.

1.6.3 Ym mhob achos, dim ond anfoneb neu dderbynneb sydd yn enw Aelod perthnasol o'r Cynulliad neu aelod o'i staff cymorth y gellir ei

chyflwyno. Ni cheir cyflwyno anfoneb neu dderbynneb sydd yn enw neb arall oni bai bod dogfennau dilys yn cael eu cyflwyno i brofi bod yr holl wariant yn gysylltiedig â'u gwaith fel Aelod Cynulliad, a dim arall.

### *1.7 Cyflwyno ceisiadau'n brydlon*

1.7.1 Dylid cyflwyno cais am lwfans cyn pen tri mis ar ôl diwedd y mis y mae'r gwariant yn berthnasol iddo. Wrth gyflwyno cais am lwfans ar ôl y cyfnod hwn dylid egluro pam y bu oedi. Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau, ar ran y Prif Weithredwr a'r Clerc, fydd yn ystyried a ellir derbyn y ceisiadau hwyr. Os oes amheuaeth, neu os oes materion newydd neu ddadleuol yn codi, bydd Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau'n cyfeirio'r mater at y Prif Weithredwr a'r Clerc a fydd yn penderfynu yn ei gylch.

### *1.8 Pan fydd Aelod yn marw neu'n methu cymryd y llw oherwydd salwch*

1.8.1 Os bydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod mewn etholiad cyffredin o dan adrannau 3 a 14 o'r Ddeddf, ac yn marw wedi iddo gael ei ailethol yn yr etholiad hwnnw neu'n methu cymryd y llw sy'n ofynnol o dan adran 23 o'r Ddeddf oherwydd salwch, bydd Lwfans Dirwyn i Ben ar gael o dan y telerau a nodir yn adran 14 o'r Penderfyniad hwn.

## ADRAN 2: CYFLOGAU'R AELODAU

### *2.1. Swm sy'n daladwy*

2.1.1. Y cyflog sy'n daladwy i Aelodau fydd £53,108 ynghyd â chyflog deiliad swydd ychwanegol os yw'r Aelod yn ymgymryd ag un o'r swyddi a restrir ym mharagraff 2.1.3. Bydd y cyflog sylfaenol a'r cyflog deiliad swydd ychwanegol yn codi'n unol â'r Mynegai Enillion Cyfartalog ym mis Ebrill 2010. Ni fydd cyflog Aelod yn daladwy nes bydd wedi tyngu llw neu wedi rhoi'r cadarnhad sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith yn unol ag adran 23 o'r Ddeddf.

2.1.2. Bydd gostyngiad o swm sy'n cyfateb i ddwy ran o dair o'r cyflog sylfaenol y mae gan Aelod Cynulliad hawl iddo os yw'r Aelod hefyd yn Aelod Seneddol neu'n Aelodau o Senedd Ewrop, yn unol ag adran 21 o'r Ddeddf.

2.1.3. Bydd gan Aelodau sydd yn dal unrhyw un o'r swyddi a ganlyn hawl i gael cyflog ychwanegol fel a ganlyn:

| **Swydd** | **Cyflog Deiliad Swydd Ychwanegol** |
|---|---|
| **Rhan 1** | |
| Y Prif Weinidog | £79,753 |
| Y Dirprwy Brif Weinidog / Gweinidog Cymru / Y Cwnsler Cyffredinol / Y Llywydd / Arweinydd y blaid fwyaf nad oes ganddi swyddogaeth weithredol | £41,370 |
| Dirprwy Weinidog / Y Dirprwy Lywydd / Prif Chwip y Llywodraeth | £26,021 |
| Arweinyddion pleidiau nad oes ganddynt swyddogaeth weithredol (heblaw am arweinydd y blaid fwyaf) | £12,000 |
| **Rhan 2** | |

| | |
|---|---|
| Comisiynwyr y Cynulliad / Prif Chwip yr Wrthblaid | £12,000 |
| Cadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn:<br><br>Pwyllgorau Craffu a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 12, Pwyllgor Archwilio a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 13, Pwyllgor Cyllid a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 14 a phwyllgorau a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 21 i drafod cynigion deddfwriaethol y bydd y Pwyllgor Busnes yn eu cyfeirio atynt. | £12,000 |
| Cadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn:<br><br>Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, y Pwyllgor Deisebau, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. | £8,000 |

2.1.4. Os oes gan Aelod fwy nag un o'r swyddi a nodir ym mharagraff 2.1.3 caiff gyflog deiliad swydd ychwanegol ar gyfer dim ond un o'r swyddi hyn, sef y swydd uchaf neu, yn ôl fel y bo'n digwydd, y swydd sydd â'r cyflog uchaf.

### *2.2. Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod Cynulliad*

2.2.1. Caiff Cwnsler Cyffredinol a benodwyd o dan adran 49 o'r Ddeddf ond nad yw'n Aelod Cynulliad gyflog sy'n cyfateb i gyfanswm y cyflog sy'n daladwy o dan baragraffau 2.1.1 i 2.1.3 i Gwnsler Cyffredinol sy'n Aelod Cynulliad.

### *2.3. Talu cyflogau*

2.3.1. Caiff cyflogau eu talu bob mis fel ôl-daliad ar ddiwrnod gwaith olaf y mis. Bydd y taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif yr Aelod drwy system drosglwyddo electronig (System Glirio Awtomataidd y Bancwyr – BACS).

## ADRAN 3: LWFANS COSTAU YCHWANEGOL – ar gyfer costau aros oddi cartref dros nos

### *3.1. Diben a swm*

3.1.1. Mae’r Lwfans Costau Ychwanegol yn ad-dalu costau pan fydd yn rhaid i Aelodau aros oddi cartref dros nos er mwyn cyflawni'u dyletswyddau fel Aelodau

3.1.2. Mae’r Lwfans Costau Ychwanegol i’w gael ar ddwy lefel (sef y Lefel Uwch a’r Lefel Is), yn ôl lleoliad prif gartref yr Aelod.

### *3.2. Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Is - Aelodau’r Ardal Fewnol*

3.2.1. Yn amodol ar ddarpariaethau'r adran hon, caiff Aelodau sydd â'u prif gartref yn un o'r etholaethau canlynol hawlio’r Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Is.

| | | |
|---|---|---|
| Caerffili | Canol Caerdydd | Gogledd Caerdydd |
| De Caerdydd a Phenarth | Gorllewin Caerdydd | Dwyrain Casnewydd |
| Gorllewin Casnewydd | Pontypridd | Bro Morgannwg |

3.2.2. Caiff Aelodau sy’n gymwys i gael y Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Is hawlio hyd at £4,135 yn ystod y flwyddyn sy’n dechrau ar 1 Ebrill 2009.

3.2.3. Mae’r Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Is yn daladwy mewn perthynas â chost aros oddi cartref dros nos.

### *3.3. Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Uwch - Aelodau’r Ardal Allanol*

3.3.1. Yn amodol ar ddarpariaethau'r adran hon, caiff Aelodau nad yw eu prif gartref yn un o'r etholaethau a restrir ym mharagraff 3.2.1 hawlio Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Uwch.

3.3.2. Os oedd Aelod yn byw mewn eiddo yr oedd Lwfans ar y Lefel Uwch yn daladwy mewn perthynas ag ef ar 1 Ebrill 2007, caiff barhau i hawlio’r Lwfans ar y Lefel Uwch hyd yn oed os nad yw’r eiddo’n gymwys oherwydd newidiadau yn y ffiniau etholaethol, cyhyd ag y bo’r Aelod yn parhau i fyw yn yr eiddo hwnnw.

3.3.3. Caiff Aelodau sy’n gymwys i gael y Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Uwch hawlio hyd at £13,115 yn ystod y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2009.

3.3.4. Mae’r Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Uwch yn daladwy mewn perthynas â chostau aros oddi cartref dros nos. Fe'i telir hefyd i helpu â chostau’r Aelod i gael ail gartref yng Nghaerdydd gan gynnwys eitemau megis llog morgais a rhent. Cyn prynu unrhyw eitemau unigol sy'n costio mwy na £2,000 dylid cysylltu â Thîm Cymorth Busnes yr Aelodau i ofyn am gymeradwyaeth.

3.3.5. Rhaid i Aelodau sy'n hawlio ad-daliad ar y llog ar forgais ail gartref gyflwyno datganiad o'r llog a dalwyd, o leiaf unwaith bob 12 mis, er mwyn ystyried unrhyw newidiadau mewn cyfraddau llog.

3.3.6. Caiff Aelodau hawlio ad-daliad ar gyfer biliau cyfleustodau, y Dreth Gyngor, band eang, yswiriant a thrwydded deledu ar gyfer ail gartref. Ni chânt hawlio ar gyfer dodrefn a gosodiadau.

## ADRAN 4: COSTAU TEITHIO CYFFREDIN YR AELODAU (yng Nghymru)

### *4.1. Rhagarweiniad*

4.1.1. Mae'r Adran hon yn ymdrin â siwrneiau Aelodau'r Cynulliad sy'n teithio yng Nghymru ar fusnes y Cynulliad (sef "teithiau arferol"); nid yw'n cynnwys teithio ar fusnes y Cynulliad i rannau eraill o'r DU na'r tu hwnt (gweler Adrannau 5 ac 8). Yn amodol ar yr hyn a nodir yn Adran 4.2.1, caiff Aelodau deithio ar y ffyrdd, ar drên, mewn awyren neu ar y môr ar gyfer y siwrneiau a nodir ym mharagraff 4.1.2 ar draul y cyhoedd os yw'r siwrnai'n angenrheidiol yng nghyswllt eu swyddogaethau fel Aelodau'r Cynulliad.

4.1.2. Caiff Aelod hawlio costau teithio ar gyfer unrhyw siwrnai os nad yw'n cael ad-daliad am yr un siwrnai o ffynhonnell arall, hyd yn oed os yw'n teithio at ddibenion gwaith y Cynulliad a sefydliadau eraill.

### *4.2. Egwyddorion cyffredinol*

4.2.1. Disgwylir i'r Aelodau deithio gan ddefnyddio'r dull rhataf, gan ystyried union gost y daith a chostau aros dros nos. Fodd bynnag, gellir ystyried hefyd yr amser a dreulir ar y daith, ac os gellir profi bod manteision i siwrnai sy'n arbed amser, o dan amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y bydd modd hawlio ad-daliad am siwrnai ddrutach. Bydd swm priodol yn cael ei dynnu oddi ar hawliad Aelod nad yw, ym marn y Prif Weithredwr a'r Clerc, wedi teithio gan ddefnyddio'r dull rhataf.

### *4.3. Teithiau arferol*

4.3.1. Yn amodol ar baragraff 4.2.1, mae gan Aelodau hawl i deithio ar draul y Cynulliad tra byddant yn teithio yng nghyswllt eu swyddogaethau fel Aelodau'r Cynulliad, gan ddilyn llwybr rhesymol.

4.3.2. Caiff Aelodau'r Cynulliad hawlio costau am deithio rhwng eu cartref, y Cynulliad a swyddfeydd lleol.

### *4.4. Teithio mewn car*

4.4.1. Yn amodol ar baragraff 4.2.1, caiff Aelodau deithio mewn car ar siwrnai arferol mewn car a hawlio lwfans fesul milltir ar sail yr union filltiroedd a deithiodd.

### *4.5. Cyfraddau fesul milltir*

4.5.1. Telir Cyfraddau Fesul Milltir a Gymeradwyir gan Gyllid a Thollau EI Mawrhydi i'r rhai sy'n teithio mewn car, beic modur neu feic.

### *4.6. Costau teithio hebryngwyr*

4.6.1. Os yw Aelodau'n defnyddio car ar gyfer teithio o'u prif gartref i'r orsaf reilffordd neu'r maes awyr agosaf, gellir hawlio costau'r daith adref os yw rhywun arall yn gyrru'r car yn ôl. Yn yr un modd, os yw Aelodau'n cael eu gyrru i'w hetholaeth neu'u rhanbarth o'u prif gartref, ac yn teithio wedyn i Gaerdydd ar drafnidiaeth gyhoeddus, telir costau teithio'r sawl sy'n dychwelyd adref ar ôl ei hebrwng.

### *4.7. Teithio mewn tacsi*

4.7.1. Yn amodol ar Adrannau 4.2.1, 4.7.2 a 4.7.3, os yw Aelodau'n teithio mewn tacsi wrth ymgymryd â'u swyddogaethau fel Aelodau'r Cynulliad, cânt wneud cais am ad-daliad ar yr amod nad yw'n fwy na'r Lwfans Fesul Milltir ar y raddfa uwch a nodir ym mharagraff 4.5.1.

4.7.2. Os nad oedd yn ymarferol i'r Aelod ddefnyddio unrhyw drafnidiaeth ar wahân i dacsi, caiff hawlio gwir gost y siwrnai.

4.7.3. Mewn unrhyw achos, yr uchafswm y gall Aelod ei hawlio fel ad-daliad o dan y lwfans hwn, yw gwir gost y siwrnai.

### *4.8. Llogi car*

4.8.1. Yn amodol ar baragraff 4.2.1, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff y gost o logi car ei ad-dalu, a hynny os cafwyd cymeradwyaeth Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau ymlaen llaw. Os ceir cymeradwyaeth i wneud hynny, gall yr Aelod hawlio gwir gost llogi'r car.

### *4.9. Teithio ar y trên*

4.9.1. Yn amodol ar baragraff 4.2.1, caiff Aelod sy'n talu o'i boced ei hun i deithio mewn trên hawlio union gostau'r tocyn. Caiff Aelodau'r Cynulliad deithio ar docyn Dosbarth Cyntaf neu Ddosbarth Safonol, gan ddibynnu ar yr hyn sy'n well ganddynt ac ar y tocynnau sydd ar gael.

### *4.10. Teithio mewn awyren*

4.10.1. Yn amodol amodol ar baragraff 4.2.1, caiff Aelod hawlio'r gost o deithio mewn awyren sy'n rhan o wasanaeth rheolaidd ar gyfer taith arferol. Caiff Aelod hawlio'r gost o deithio mewn awyren breifat neu

awyren siarter fel rhan o'r trefniadau teithio arferol, hyd at uchafswm y gost o wneud yr un daith mewn awyren sy'n rhan o wasanaeth rheolaidd.

### *4.11. Teithio ar fusnes y pwyllgorau*

4.11.1. Mae'r telerau uchod yn berthnasol hefyd pan fydd Aelod yn teithio ar fusnes swyddogol un o'r pwyllgorau. Caiff hawlio lwfans fesul milltir ar y gyfradd uwch a nodir yn Adran 4.5.1 ond ni fydd y milltiroedd hynny'n cyfrif yn erbyn cyfyngiadau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi.

## ADRAN 5: TEITHIAU ESTYNEDIG

### *5.1. Rhagarweiniad*

5.1.1. Yn ogystal â threfniadau "teithiau arferol" (Adran 4) gall Aelodau deithio ar draul y cyhoedd i fannau eraill yn y DU yng nghyswllt eu gwaith fel Aelodau'r Cynulliad a hynny o dan "lwfans teithiau estynedig". Er mwyn bod yn gymwys rhaid i'r daith gydymffurfio ag un o'r gofynion canlynol:

- Mae'r daith yn ymwneud yn benodol â'r Cynulliad
- Mae'r daith yn ymwneud â mater sydd gerbron y Cynulliad ar y pryd, neu gerbron un o'r Pwyllgorau y mae'r Aelod yn ei wasanaethu
- Mae'n berthnasol i etholwr, neu'n ymwneud â mater o ddiddordeb cyffredinol i'r etholaeth neu'r rhanbarth

5.1.2. Caiff Aelod hawlio lwfans teithio estynedig ar gyfer unrhyw siwrnai os nad yw'n cael ad-daliad am yr un siwrnai o ffynhonnell arall, hyd yn oed os yw'n teithio at ddibenion gwaith y Cynulliad a sefydliadau eraill. Cyn i'r Aelod allu hawlio'r lwfans teithio ychwanegol hwn, mae'n rhaid i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau gytuno ar y daith ymlaen llaw. Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu ar unrhyw deithiau na roddodd y Tîm sêl ei fendith iddynt.

### *5.2. Symiau ac Amodau*

5.2.1. Rhestrir lefelau ac amodau'r lwfans teithiau estynedig yn Adran 4.

## ADRAN 6: COSTAU TEITHIO PARTNERIAID NEU BLANT

### *6.1. Cyfyngu ar nifer y siwrneiau*

6.1.1. Os bydd partner neu unrhyw blentyn (dan ddeunaw oed) Aelod Cynulliad yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus rhwng Caerdydd a'i etholaeth, neu ei ranbarth, neu rhwng Caerdydd a phrif gartref yr Aelod, ceir hawlio cost y siwrnai honno. Nid oes rhaid i'r Aelod deithio gyda'r teulu. Er hynny, ni all Aelod hawlio cost mwy na 12 siwrnai sengl o'r fath y flwyddyn ar gyfer ei deulu.

6.1.2. At ddibenion y lwfans hwn, diffinnir partner fel a ganlyn:

- Priod cyfreithlon;
- Partner Sifil fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004
- Person o'r naill ryw neu'r llall sy'n cyd-fyw â'r Aelod ac a enwebwyd yn bartner i'r Aelod at ddibenion Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau.

6.1.3. Mae taith ddwyffordd yn cyfrif fel dwy daith sengl.

### *6.2. Diffiniad o blentyn*

6.2.1. Mae plentyn, at ddibenion y lwfans hwn, yn cynnwys llysblentyn, plentyn wedi'i fabwysiadu, plentyn maeth, neu unrhyw blentyn arall sy'n byw fel un o deulu'r Aelod ac sydd dan ddeunaw oed.

### *6.3. Teithio mewn car*

6.3.1. Caiff partner yr Aelod ac unrhyw blant dan ddeunaw oed deithio mewn car yn hytrach na thrafnidiaeth gyhoeddus rhwng Caerdydd a'r etholaeth, neu rhwng Caerdydd a phrif gartref yr Aelod. Mewn achosion o'r fath, caiff yr Aelod hawlio'r gyfradd briodol fesul milltir. Dylid hawlio costau teithio partner yr Aelod mewn car ar wahân i hawliad yr Aelod ei hun. Telir yr un cyfraddau fesul milltir ag a delir i'r Aelodau. Bydd unrhyw daith o'r fath yn cyfrif fel un o'r 12 taith sengl a ganiateir mewn blwyddyn. Ni chaiff partner na phlentyn hawlio costau teithio os yw wedi teithio yn yr un car.

### *6.4. Taliad uniongyrchol i bartner neu blentyn*

6.4.1. Caiff Aelodau ofyn i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau dalu unrhyw swm a hawliwyd o dan y lwfans hwn yn uniongyrchol i'r partner neu'r plentyn dan sylw.

## ADRAN 7: COSTAU TEITHIO STAFF YR AELODAU

### *7.1. Cyfyngu ar nifer y siwrneiau*

7.1.1. Caiff pob Aelod hawlio costau 18 taith ddwyffordd ar gyfer eu staff bob blwyddyn os ydynt yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus rhwng Caerdydd a'r etholaeth neu'r rhanbarth. At y diben hwn, mae staff cymorth yn golygu'r rheini a gyflogir ar ran yr Aelod o'r Lwfans Cyflogau Staff, cyllid i grwpiau neu'r Lwfans Staff Dros Dro.

### *7.2. Teithio mewn Car*

7.2.1. Os bydd Aelod yn teithio mewn car rhwng Caerdydd a'r etholaeth neu'r rhanbarth, caiff yr Aelod hawlio cost y siwrneiau hynny. Telir y cyfraddau perthnasol a gymeradwyir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Bydd y siwrneiau hyn yn cael eu cyfrif fel rhan o'r cyfanswm o 18 taith ddwyffordd a ganiateir mewn blwyddyn.

### *7.3. Taliadau uniongyrchol i staff*

7.3.1. Caiff Aelodau ofyn i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau dalu unrhyw swm a hawliwyd o dan y lwfans hwn yn uniongyrchol i'r aelod o staff dan sylw.

## ADRAN 8: TEITHIO I SEFYDLIADAU'R GYMUNED EWROPEAIDD etc.

### *8.1. Yr hyn y gellir ei hawlio*

8.1.1. Mewn unrhyw flwyddyn, caiff Aelodau hawlio ad-daliad am dair taith ddwyffordd rhwng y Deyrnas Unedig ac unrhyw un o Sefydliadau'r Gymuned Ewropeaidd ym Mrwsel.

8.1.2. Mewn unrhyw flwyddyn, caiff Aelodau hawlio ad-daliad am un daith ddwyffordd i unrhyw un o Sefydliadau'r Gymuned Ewropeaidd yn Luxembourg neu Strasbourg neu senedd genedlaethol unrhyw aelod-wladwriaeth arall o'r Undeb Ewropeaidd, yn ogystal ag unrhyw daith o dan baragraff 8.1.1.

8.1.3. Yn y naill achos a'r llall, rhaid i brif bwrpas y daith fod yn gysylltiedig â'u swyddogaethau Aelod Cynulliad.

8.1.4. Caiff Aelod hawlio union gostau'r daith a hawlio lwfans cynhaliaeth hyd at yr uchafsymiau a ganlyn:

- cost y tocyn awyren dwyffordd rhataf a mwyaf addas sydd ar gael i un o'r cyrchfannau a nodir yn adran 8.1.1 neu 8.1.2; a
- chynhaliaeth am ddwy noson gyda phrydau bwyd ac unrhyw siwrneiau ychwanegol.

8.1.5. Caiff Aelod nad yw'n teithio mewn awyren hawlio'r union gostau teithio hyd at yr uchafswm a bennir ym mharagraff 8.1.4 uchod.

### *8.2. Gwneud Cais*

8.2.1. Cyn teithio, mae'n rhaid i Aelodau gyflwyno datganiad i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau ymlaen llaw yn nodi diben yr ymweliad, lleoliad a hyd yr ymweliad, a'r bobl neu'r cyrff y bwriedir cwrdd â nhw. Cyn y caiff yr Aelod hawlio'r lwfans teithio, mae'n rhaid i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau gytuno i'r daith ymlaen llaw. Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu a ddylid talu costau unrhyw daith na roddodd y Tîm sêl ei fendith iddi.

### *8.3. Teithio i seneddau, cynghorau neu gynulliadau rhanbarthol*

8.3.1. Caiff Aelod ofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr a'r Clerc i ffurfio dirprwyaeth i ymweld â senedd, cyngor neu gynulliad rhanbarthol yn yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid i'r cais ddangos manteision tebygol yr

ymweliad i waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a nodi'n glir y bobl neu'r sefydliadau y byddant yn ymweld â nhw. Bydd ymweliad o’r fath yn cyfateb i ymweliad y gellid, fel arall, fod wedi’i wneud o dan baragraff 8.1.2.

## ADRAN 9: LWFANS COSTAU SWYDDFA

### *9.1. Diben a swm*

9.1.1. Caiff Aelodau hawlio Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas ag unrhyw gostau rhesymol yng nghyswllt rhedeg swyddfa ac ymwneud ag etholwyr. Rhaid anfon derbynebau neu brawf o unrhyw wariant gydag unrhyw gais.

9.1.2. Yn amodol ar baragraff 10.6.1, yr uchafswm y gall yr Aelodau ei hawlio fel Lwfans Costau Swyddfa yw £15,135 yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2009.

### *9.2. Costau Swyddfa*

9.2.1. Nid oes modd darparu rhestr gynhwysfawr o'r holl eitemau a ganiateir. Ond, gall yr enghreifftiau a ganlyn helpu’r Aelodau i benderfynu a allant gyflwyno cais ai peidio:

- Costau cynnal swyddfa yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod (gan gynnwys rhent, yswiriant, y dreth gyngor neu ardrethi busnes, biliau trydan, nwy, dŵr a ffôn, a chostau darparu cyfarpar swyddfa);
- Costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â phrydlesu neu rentu'r swyddfa;
- Costau’n ymwneud â diogelwch y swyddfa;
- Cost llogi neu rentu ystafelloedd yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod ar gyfer cynnal cymorthfeydd;
- Costau hysbysebu’r cymorthfeydd;
- Papurau newydd a chylchgronau;
- Biliau ffonau symudol;
- Ffioedd cyfrifwyr sy'n gysylltiedig â chost dodrefnu a chynnal y swyddfa;
- Deunyddiau swyddfa nad ydynt ar gael yn uniongyrchol o'r Cynulliad;

- Cyflogau a chostau eraill yn ymwneud â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol, nad ymdrinnir â nhw mewn unrhyw fan arall.

9.2.2. Bydd angen i swyddfa Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau gymeradwyo ceisiadau ar gyfer eitemau unigol o ddodrefn neu eitemau unigol eraill sy'n costio mwy na £2,000, cyn iddynt gael eu prynu.

9.2.3. Ni ellir hawlio costau ad-dalu morgais, na'r llog arno, o dan y lwfans hwn.

9.2.4. Rhaid i'r anfonebau ar gyfer rhent y swyddfa gynnwys cyfeiriad yr adeilad sy'n cael ei rentu.

### *9.3. Diogelwch Swyddfeydd*

9.3.1. Bydd swm ychwanegol ar gael i ariannu unrhyw wariant o fwy na £2,000 gan Aelod mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar y camau y mae Aelodau'n bwriadu'u cymryd i ddiogelu'u hunain, eu staff, eu swyddfa etholaethol neu ranbarthol neu'u hoffer swyddfa os yw'r heddlu'n argymell eu bod yn gwneud hynny. Rhaid i'r argymhellion hynny fod yn ysgrifenedig a rhaid i Aelodau gyflwyno'r argymhellion ac o leiaf 3 dyfynbris cystadleuol ar gyfer y gwaith dan sylw, gan wneud hynny cyn mynd ati i wneud y gwaith.

### *9.4. Iechyd a Diogelwch/Mynediad i'r Anabl*

9.4.1. Bydd swm ychwanegol ar gael i ariannu unrhyw wariant gan Aelod o fwy na £2,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol yng nghyswllt iechyd a diogelwch, diogelwch tân neu addasiadau i'w gwneud yn haws mynd i mewn ac allan o'u hadeiladau, os yw'r Aelodau'n bwriadu cymryd y camau hynny ar sail argymhellion gan berson cymwys. Bydd yr argymhellion hynny wedi'u cymeradwyo gan y Prif Weithredwr a'r Clerc ac fe'u disgrifir mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau. Rhaid i'r argymhellion hynny fod yn ysgrifenedig a rhaid i'r Aelodau gyflwyno'r argymhellion ac o leiaf 3 dyfynbris cystadleuol am gost y gwaith dan sylw cyn mynd ati i wneud y gwaith.

9.4.2. Ni fydd angen i unrhyw Aelod ddefnyddio mwy na £2,000 o'i Lwfans Costau Swyddfa yng nghyswllt paragraffau 9.3.1 a 9.4.1 yn ystod yr un flwyddyn ariannol.

### *9.5. Trosglwyddo Arian*

9.5.1. Caniateir i Aelod drosglwyddo hyd at 25 y cant o'i Lwfans Costau Swyddfa i'w Lwfans Cyflogau Staff ychwanegol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 10.3.1.) ar ôl hysbysu Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau yn

ysgrifenedig ymlaen llaw.

## ADRAN 10: ADRAN 10: LWFANS CYFLOGAU STAFF

### *10.1. Diben a Swm*

10.1.1. Caiff Aelodau hawlio Lwfans Cyflogau Staff i dalu costau cyflogi pobl i wneud gwaith gweinyddu, clercio neu waith ysgrifenyddol neu i wneud gwaith ymchwil, lle mae’r holl gostau hynny’n codi’n anorfod oherwydd eu gwaith fel Aelodau’r Cynulliad, a dim arall.

10.1.2. Yn ystod y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2009, gall Aelod Cynulliad hawlio lwfans i dalu costau cyflogau a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr cysylltiedig, hyd at 3 o staff cyfwerth ag amser llawn. Ni chaiff mwy na 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 1 fel y diffinnir isod. Ni chaiff mwy na 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 a'r gweddill o Fand 3.

| Band | Swyddi |
|---|---|
| 1 | Rheolwr Swyddfa |
| 2 | Uwch Ysgrifennydd<br>Uwch Weithiwr Achos<br>Cynorthwy-ydd Ymchwil<br>Swyddog y Wasg |
| 3 | Gweithiwr Achos<br>Ysgrifennydd Iau |

10.1.3. Dyma'r graddfeydd cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y swyddi hyn:

| **BAND** | **Pwynt 1** | **Pwynt 2** | **Pwynt 3** | **Pwynt 4** | **Pwynt 5** |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | £21,250 | £23,204 | £25,337 | £27,667 | £30,212 |
| **2** | £18,072 | £19,931 | £21,982 | £24,244 | £26,739 |
| **3** | £16,314 | £17,618 | £19,025 | £20,544 | £22,185 |

10.1.4. Caiff y graddfeydd hyn eu hadolygu ar 1 Ebrill 2010 ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

## *10.2 Codiad cyflog*

10.2.1. Bydd cyflogau aelodau unigol o'r staff cymorth a benodwyd cyn 1 Ebrill 2005 yn codi fesul pwynt ar 1 Ebrill bob blwyddyn nes y byddant yn cyrraedd pen uchaf y raddfa, yn amodol ar berfformiad boddhaol. Bydd staff cymorth a benodwyd ar ôl 1 Ebrill 2005 yn symud drwy'r raddfa gyflogau fesul pwynt bob blwyddyn, ar y dyddiad y cawsant eu penodi, nes iddynt gyrraedd pen uchaf y raddfa, yn amodol ar berfformiad boddhaol.

10.2.2. Bydd cyflog unrhyw aelod unigol o'r staff cymorth yn cael ei ddiogelu os oedd ei gyflog yn uwch na'r cyflog uchaf ar y raddfa ar 1 Ebrill 2005, nes y bydd hwnnw'n codi'n uwch na'r cyflog sy'n daladwy. Bryd hynny, bydd yn cael y cyflog uchaf ar y raddfa.

10.2.3. Bydd staff cymorth newydd yn dechrau ar waelod y band cyflog priodol oni bai bod rhesymau da i gyfiawnhau cyflog dechreuol uwch. Gofynnir i Aelodau gyflwyno achos dros hynny i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau. Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu'n derfynol ar unrhyw anghydfod.

10.2.4. Yn amodol ar berfformiad boddhaol, caiff staff newydd gynnydd yn eu cyflog ar ddyddiad eu penodiad bob blwyddyn.

## *10.3. Costau Eraill yn ymwneud â Staff*

10.3.1. Yn amodol ar Adran 10.5.1, gall Aelod hawlio swm ychwanegol o'r Lwfans Cyflogau Staff hyd at £5,801 yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2009 i dalu costau goramser, hyfforddiant, teithio, taliadau bonws etc. (gan gynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr mewn perthynas â'r taliadau hyn), a bydd y swm hwn yn codi'n unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

## *10.4. Cytundebau Cyflogaeth*

10.4.1. Mae'n rhaid i Aelodau roi datganiad ysgrifenedig i holl aelodau'i staff yn nodi prif delerau ac amodau eu cyflogaeth, gan roi copi i swyddfa Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau ymhen mis ar ôl iddynt ddechrau yn eu swydd.

## *10.5. Talu Cyflogau*

10.5.1. Telir cyflogau'r staff cymorth yn fisol ar ddiwrnod olaf pob mis. Bydd y taliadau yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif yr unigolyn drwy drosglwyddiad electronig (System Glirio Awtomataidd y Bancwyr – BACS).

### *10.6. Trosglwyddo Arian*

10.6.1.Caniateir i Aelodau drosglwyddo hyd at 25 y cant o'r Lwfans Cyflogau Staff ychwanegol, fel y'i diffinnir ym mharagraff 10.3.1, i'w Lwfans Costau Swyddfa, ar yr amod eu bod yn hysbysu Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau'n ysgrifenedig ymlaen llaw.

### *10.7. Taliadau uniongyrchol i staff*

10.7.1 Caiff Aelodau ofyn i Dîm Cymorth Busnes yr Aelodau dalu unrhyw swm a hawliwyd o dan adran 10.3.1 yn uniongyrchol i'r aelod o staff dan sylw.

10.7.2 Yr uchafswm y caiff Aelodau ei dalu fel bonws i staff y maent yn eu cyflogi yw 15% o'u cyflog crynswth yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol. At ddibenion y paragraff hwn, y cyflog crynswth yw'r cyflog crynswth sy'n daladwy i staff cyn ystyried unrhyw drefniant aberthu cyflog sy'n weithredol.

## ADRAN 11: PENSIYNAU A DARPARIAETHAU CYSYLLTIEDIG AR GYFER STAFF YR AELODAU

### *11.1. Pensiwn*

11.1.1. Caiff Aelodau hawlio lwfans ar gyfer costau'u cyfraniadau nhw at gynllun pensiwn personol unrhyw aelod o staff a delir o'r:

(a) Lwfans Costau Staff;
(b) cyllid ar gyfer grwpiau; neu
(c) Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol.

11.1.2. Yr uchafswm a delir yw 10% o'r cyflog a delir i'r unigolyn hwnnw. Nid yw'r lwfans hwn yn cymryd lle Lwfans Cyflogau Staff, y cyllid ar gyfer grwpiau na'r Lwfans Costau Swyddfa.

### *11.2. Yswiriant Bywyd*

11.2.1. Caiff Aelodau hawlio lwfans mewn perthynas â chostau'u cyfraniadau nhw at unrhyw bolisi yswiriant bywyd a awdurdodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer staff a delir o'r:

(a) Lwfans Costau Staff;
(b) cyllid ar gyfer grwpiau; neu
(c) Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol

### *11.3. Yswiriant Salwch Difrifol*

11.3.1. Caiff Aelodau hawlio lwfans mewn perthynas â chostau'u cyfraniadau nhw at unrhyw bolisi yswiriant salwch difrifol a awdurdodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer staff a delir o'r:

(a) Lwfans Costau Staff;
(b) cyllid ar gyfer grwpiau; neu
(c) Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol

## ADRAN 12:LWFANS STAFF DROS DRO

### *12.1. Diben*

12.1.1. Caiff Aelodau hawlio Lwfans Staff Dros Dro i dalu unrhyw gostau ychwanegol i sicrhau cymorth ysgrifenyddol neu gymorth ymchwil os yw'r sawl sy'n cael ei gyflogi o dan y Lwfans Cyflogau Staff yn methu rhoi'r cymorth hwnnw oherwydd salwch, absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu, ond rhaid i'r costau hynny fod wedi codi'n anorfod o'u dyletswyddau fel Aelodau Cynulliad, a dim arall.

### *12.2. Hawlio'r Lwfans Staff Dros Dro*

12.2.1. Gellir hawlio Lwfans Staff Dros Dro os yw'r person sy'n arfer gwneud y gwaith:

- yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch neu absenoldeb mamolaeth, ac yn dal i gael ei dalu gan yr Aelod trwy'r Lwfans Cyflogau Staff;
- yn cael ei gyflogi'n barhaol;
- os yw'n sâl, yn absennol am fwy na phythefnos;
- yn cyflwyno tystysgrifau meddygol ar gyfer salwch neu dystysgrif mamolaeth (ffurflen MATB1) sy'n nodi'r wythnos y disgwylir iddi roi genedigaeth neu, yn achos absenoldeb tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu, yn cyflwyno tystysgrif gyfatebol;
- yn meddu ar gytundeb cyflogaeth dilys sy'n nodi'r cyfnodau o absenoldeb salwch, mamolaeth ac absenoldeb mabwysiadu a ganiateir â chyflog.

### *12.3. Cyfyngiadau*

12.3.1. Bydd uchafswm y Lwfans Staff Dros Dro y gellir ei hawlio yn seiliedig ar gyflog crynswth yr aelod o staff sy'n absennol dros gyfnod penodol (gweler isod).

12.3.2. Yn unol ag arferion cyflogi da, anogir yr Aelodau i ofalu bod gan yr holl staff dros dro drefniadau pensiwn.

12.3.3. Ymdrinnir ag absenoldebau salwch, mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu yn gwbl ar wahân wrth gyfrif Lwfans Staff Dros Dro. Felly, os

bu un o’r staff yn absennol ar gyfnod mamolaeth neu salwch (nad oedd yn gysylltiedig â’r beichiogrwydd) caiff Aelodau fanteisio ar ddwy gyllideb wahanol ar gyfer y Lwfans Staff Dros Dro.

12.3.4. Pan fydd unigolyn yn absennol oherwydd salwch, bydd uchafswm y lwfans sydd ar gael yn seiliedig ar chwe mis o dâl llawn a chwe mis ar hanner cyflog (gan gynnwys cyfraniadau'r cyflogwr at yr Yswiriant Gwladol a chostau pensiwn) pob aelod o staff absennol cymwys.

12.3.5. Os bydd unigolyn yn absennol am fwy na phythefnos, (gweler 12.2.1), bydd y Lwfans Staff Dros Dro yn cael ei ôl dalu gan ddechrau ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.

12.3.6. Pan fydd unigolyn ar absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu, bydd uchafswm y lwfans sydd ar gael yn cyfateb i 26 wythnos o gyflog llawn yr unigolyn (gan gynnwys cyfraniadau'r cyflogwr at yr Yswiriant Gwladol a chostau pensiwn).

12.3.7. Pan wneir cais am gymorth dros dro oherwydd salwch ar gyfer y cyfnod hwyaf a ganiateir o dan y trefniadau newydd, gellir hawlio ar gyfer unrhyw estyniad i'r cymorth o'r Lwfans Cyflogau Staff. Bydd y cyflogai parhaol wedi cyrraedd yr uchafswm y gall ei hawlio’n ôl ei gytundeb ac ni fydd costau'r staff dros dro felly yn ychwanegol at y cyflogau arferol.

12.3.8. Os ceir cais arall am gymorth, a hynny'n gysylltiedig ag aelod o staff sydd wedi bod yn absennol am 12 mis â chyflog, bydd y cais hwnnw'n cael ei dderbyn cyn belled â bod cyfnod o 12 mis ers y cais diwethaf.

## ADRAN 13: TALIADAU DISWYDDO I STAFF CYMORTH AELODAU'R CYNULLIAD A DELIR O'R LWFANS CYFLOGAU STAFF

### *13.1. Pan fydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod Cynulliad*

13.1.1. Caiff yr Aelod hawlio cost taliadau diswyddo i staff cymwys os yw'r Aelod yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod o'r Cynulliad am ryw reswm. I fod yn gymwys, mae'n rhaid i staff fod ag o leiaf dwy flynedd o wasanaeth gyda'r Aelod ar y dyddiad y maent yn rhoi'r gorau i weithio i'r cyn Aelod, a heb fod yn hunangyflogedig. Cyfrifir taliadau diswyddo yn unol â'r ddeddfwriaeth gyflogi gyfredol. Yr uchafswm y gellir ei hawlio o dan y lwfans hwn yw swm y tâl diswyddo sy'n daladwy wedi diswyddiad statudol.

## ADRAN 14: LWFANS DIRWYN I BEN

### *14.1. Diben a Swm*

14.1.1. Caiff y rhai sy'n rhoi'r gorau i fod yn Aelodau Cynulliad, am unrhyw reswm, hawlio lwfans ar gyfer costau gwaith a wneir ar eu rhan wedi iddynt roi'r gorau i fod yn Aelod, yn ogystal ag unrhyw fân wariant cysylltiedig. Caiff cyn Aelod wneud cais am y lwfans dim ond os yw'n hanfodol gwneud y gwaith er mwyn cwblhau'r hyn a oedd ar y gweill pan roddodd gorau i fod yn Aelod. Yr uchafswm y gellir ei hawlio yw un rhan o dair o gyfanswm y Lwfans Costau Swyddfa, yr elfen Costau Staff eraill o'r Lwfans Cyflogau Staff (fel y'i diffinnir ym mharagraff 10.3.1) sy'n weithredol ar y pryd, a'r gwir gyflogau a dalwyd i staff a gyflogwyd gan y cyn Aelod ar y diwrnod y gadawodd y Cynulliad, er mwyn talu costau unrhyw waith yr oedd yn angenrheidiol ei gwblhau at ddibenion busnes y Cynulliad a wnaed ar ran Aelod sydd wedi marw, sydd wedi colli'i sedd neu sydd wedi ymddeol, yn dilyn ei ddiwrnod olaf fel Aelod o'r Cynulliad ynghyd ag unrhyw fân wariant cysylltiedig. Bydd yr uchafswm sy'n daladwy o dan y lwfans hwn yn gostwng yn ôl faint o'r Lwfans Costau Ychwanegol, Lwfans Costau Swyddfa a Lwfans Staff Cymorth a ordalwyd oherwydd y rheolau pro rata a ddisgrifir yn adran 1.4.1. o'r Penderfyniad hwn.

14.1.2. Yn achos Aelod sydd wedi marw, telir y lwfans hwn i'r rheini y cyfeirir yn briodol atynt fel cynrychiolwyr personol yr Aelod ymadawedig.

### *14.2. Treuliau Taladwy*

14.2.1. Gellir talu treuliau ar gyfer y canlynol os oeddynt yn rhan anorfod o'r broses dirwyn i ben, a dim arall:

- Cyflogau a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar gyfer staff sy'n parhau i gael eu cyflogi ynghyd â chyfraniadau pensiwn cysylltiedig;
- Rhwymedigaethau contract y staff;
- Rhwymedigaethau cytundebol i logi offer neu i brynu neu brydlesu swyddfeydd;
- Post, deunydd swyddfa a chostau ffôn;
- Costau teithio

14.2.2. Nid yw'r taliadau diswyddo o dan Adran 13 yn cael eu cynnwys yn y lwfans hwn.

# ADRAN 15: GRANT ADSEFYDLU

## *15.1 Grant Adsefydlu*

15.1.1. Caiff unrhyw un sy'n Aelod Cynulliad yn union cyn etholiad cyffredin y Cynulliad ac

- nad yw'n ymgeisydd yn yr etholiad; neu
- os yw'n ymgeisydd, nad yw'n cael ei ethol,

hawlio Grant Adsefydlu.

15.1.2. Yn y paragraff blaenorol, mae "ymgeisydd yn yr etholiad" yn cynnwys person ar restr ymgeiswyr plaid wleidyddol gofrestredig; ac mae "cael ei ethol" yn cynnwys person sydd wedi ei ethol ar gyfer rhanbarth etholiadol y Cynulliad.

15.1.3. Mynegir y grant fel canran o'r cyflog blynyddol (ar y gyfradd sy'n daladwy i'r Aelodau yn union cyn yr etholiad) ac fe'i pennir yn ôl oedran yr Aelod (ar ddyddiad yr etholiad) a hyd ei wasanaeth fel Aelod o'r Cynulliad cyn yr etholiad. Bydd Grant Adsefydlu Aelodau Cynulliad sydd hefyd yn Aelodau Seneddol neu'n Aelodau Senedd Ewrop, sy'n derbyn dim ond traean o'u cyflog yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad) (Cyflogau) (Cyfyngu) 1999 (SI 1999 Rhif 1083) yn cael ei bennu ar sail eu cyflog llawn.

15.1.4. Dangosir y canrannau perthnasol yn y Tabl isod.

**CANRANNAU'R CYFLOG BLYNYDDOL**

Nifer y blynyddoedd o wasanaeth (blynyddoedd wedi eu cwblhau)

| Oedran | O dan 10 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 a throsodd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O dan 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 |
| 50 | 50 | 50 | 52 | 54 | 56 | 58 | 60 |
| 51 | 50 | 52 | 55 | 58 | 62 | 65 | 68 |
| 52 | 50 | 54 | 58 | 63 | 67 | 72 | 76 |
| 53 | 50 | 56 | 62 | 67 | 73 | 78 | 84 |
| 54 | 50 | 58 | 65 | 72 | 78 | 85 | 92 |
| 55 i 64 | 50 | 60 | 68 | 76 | 84 | 92 | 100 |
| 65 | 50 | 58 | 65 | 72 | 78 | 85 | 92 |
| 66 | 50 | 56 | 62 | 67 | 73 | 78 | 84 |
| 67 | 50 | 54 | 58 | 63 | 67 | 72 | 76 |
| 68 | 50 | 52 | 55 | 58 | 62 | 65 | 68 |
| 69 | 50 | 50 | 52 | 54 | 56 | 58 | 60 |
| 70 a throsodd | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 |

15.1.5. Wrth gyfrif nifer y blynyddoedd o wasanaeth, ni chyfrifir unrhyw gyfnod fel Aelod fwy nag unwaith; caiff unrhyw gyfnod o wasanaeth a ddiystyrwyd wrth gyfrif grant adsefydlu blaenorol ei ddiystyru y tro hwn hefyd. Hefyd, caiff ffracsiwn o flwyddyn ei ddiystyru, os nad yw Aelod a etholwyd mewn etholiad cyffredin yn cwblhau blwyddyn gyfan am fod yr etholiad cyffredin nesaf yn cael ei gynnal cyn diwedd yr un flwyddyn. Mewn achos o'r fath, dylid cymryd bod yr Aelod wedi gwasanaethu am flwyddyn lawn.

### *15.2 Deiliaid Swyddi*

15.2.1. Bydd gan Aelodau'r Cynulliad sydd wedi dal un o'r swyddi a nodir ym mharagraff 2.1.3 ar unrhyw adeg yn ystod eu cyfnod o wasanaeth (gweler paragraff 15.1.5) hawl i dderbyn taliad ychwanegol drwy gyfrwng Grant Adsefydlu. Bydd y taliad gyfwerth â swm y cyflog a dalwyd i ddeiliad y swydd honno yn y tri mis cyn iddynt roi'r gorau i'r swydd. Os yw'r Aelod wedi dal mwy nag un swydd yn ystod y cyfnod hwnnw, seilir y taliad ar gyfradd y cyflog uchaf.

## ADRAN 16: GRANT YMDDEOL OHERWYDD SALWCH

### *16.1 Grant Ymddeol Oherwydd Salwch*

16.1.1 Mae gan Aelodau sydd â salwch sy’n eu rhwystro rhag parhau i fod yn Aelodau Cynulliad yr hawl i wneud cais am Grant Ymddeol oherwydd Salwch pan fyddant yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod. Bydd lefel y grant sy'n daladwy yn cael ei phennu yn yr un modd â’r Grant Adsefydlu o dan Adran 15, ond y dyddiad allweddol yw’r dyddiad y mae’r Aelod yn rhoi’r gorau i fod yn Aelod Cynulliad, yn hytrach na dyddiad yr etholiad cyffredin.

16.1.2 Ni fydd gan Aelod o’r Cynulliad sy'n hawlio Grant Ymddeol oherwydd Salwch yr hawl i wneud cais am Grant Adsefydlu pan gynhelir yr etholiad cyffredin nesaf.

## ADRAN 17: LWFANS ANABLEDD

### *17.1. Diben a Swm*

17.1.1. Bydd Lwfans Anabledd ar gael i Aelodau y mae angen adnoddau ychwanegol arnynt, oherwydd eu hanabledd, i ymgymryd â'u cyfrifoldebau fel Aelodau.

17.1.2. Bydd swm y lwfans sy'n daladwy yn cael ei bennu ar sail asesiad o natur a maint yr anabledd a'r adnoddau ychwanegol y mae eu hangen ar yr Aelod hwnnw i'w alluogi i ymgymryd â'i ddyletswyddau. Bydd angen i'r Aelod a'r Prif Weithredwr a'r Clerc gytuno ar yr asesiad a'r broses o bennu'r swm sy'n daladwy, ond os na cheir cytundeb, y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu ar y mater.

17.1.3. At ddibenion y lwfans hwn bydd gan "anabledd" yr un ystyr â'r hyn a geir yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

## ADRAN 18:GALW'R CYNULLIAD NEU BWYLLGOR YN ÔL YN YSTOD Y TORIAD

### *18.1. Diben a Swm*

18.1.1. Gall Aelodau hawlio unrhyw gostau teithio os bu’n rhaid iddynt dalu i deithio i fod yn bresennol mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad a alwyd er mwyn ystyried mater brys sydd o bwys cyhoeddus yn unol â Rheol Sefydlog 7.3.

18.1.2. Gall Aelodau hawlio unrhyw gostau teithio os bu’n rhaid iddynt dalu i deithio i fod yn bresennol mewn cyfarfod o Bwyllgor y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 10.41.

18.1.3. Bydd darpariaethau Adran 4, ac eithrio paragraffau 4.1.1 a 4.10.1, yn berthnasol yn yr achosion hyn. Os bydd yn teithio mewn awyren, telir cost tocyn unffordd dosbarth busnes. Telir cost llety os bu’n rhaid i Aelod aros dros nos wrth deithio i'r Cynulliad. Caiff Aelodau hawlio’r gost o ddychwelyd i’w cyrchfan wyliau os bydd hynny’n ymarferol.